

Hawdd ei Ddeall

Helpu plant a phobl ifainc sydd angen cefnogaeth ychwanegol i ddysgu

Plant a phobl ifainc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Eglurhad Hawdd ei Ddeall yw hwn o **Fil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)**

Hydref 2015



Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Efallai na fedrwch chi ddarllen a deall y ddogfen hon heb help. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Efallai bydd rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain wedi cael eu hysgrifennu mewn **glas trwm** a dywedir beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.

Os bydd unrhyw un o'r geiriau yn cael ei ddefnyddio eto yn y llyfryn bydd yn cael ei ddangos mewn **ysgrifennu glas cyffredin**. Os gwelwch chi eiriau mewn **ysgrifennu glas cyffredin**, gallwch edrych beth maen nhw'n feddwl yn **Geiriau anodd** ar dudalen 32.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pan fydd y ddogfen yn dweud 'ni', mae hyn yn meddwl Llywodraeth Cymru.

I gael mwy o gopiau o'r fersiwn Hawdd ei Ddeall hwn cysylltwch â:



Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr, Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ



Ffôn: 02920 823777

e-bost: SENReforms@cymru.gsi.gov.uk



Gwefan: www.llyw.cymru/consultations/education/draft-aln-and-education-tribunal-wales-bill/?lang=cy

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn Hawdd ei Deall gan Anabledd Dysgu Cymru gan ddefnyddio Photosymbols 5.

Am beth mae'r ddogfen hon yn sôn	4
Beth yw anghenion dysgu ychwanegol (ADY)?	7
Cynllun ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY.....	11
Gwneud y gorau bosibl ar gyfer plant a phobl ifainc sydd ag ADY	16
Pawb yn gweithio gyda'i gilydd.....	18
Pan na fydd pobl yn cytuno â'r cynllun.....	20
Rhieni sydd ddim yn gallu gwneud penderfyniadau.....	26
Rheolau a chyngor ynghylch y ddeddf newydd.....	28
Plant sy'n derbyn gofal.....	30
Plant a phobl ifainc sy'n cael eu cadw'n gaeth.....	31
Geiriau anodd.....	32

Am beth mae'r ddogfen hon yn sôn

Pam y mae angen i'r ddeddf newid?



Mae'r ddeddf ar gyfer plant a phobl ifainc sydd ag anghenion addysgol ychwanegol yn 30 mlynedd oed. Mae o'n hen ffasiwn.



Dydy o ddim yn rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen ar blant a phobl ifainc heddiw. Mae problemau gyda'r ffordd o weithio ar hyn o bryd. Weithiau:



- mae anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn dod i'r golwg yn rhy hwyr



- mae cefnogaeth yn cael ei roi yn rhy hwyr



- dydy'r plentyn neu'r person ifanc ddim yn cael ei gynnwys digon



- mae'n rhy gymhleth



- mae'n costio llawer.

Ein syniadau yn 2014



Dros lawer o flynyddoedd rydyn ni wedi edrych yn agos ar rai o'r problemau ynglŷn â'r ffordd yr oedd y ddeddf yn gweithio.



Wedyn fe wnaethon ni weithio ar ddeddf newydd.



Yn 2014 fe anfonon ni syniadau ar gyfer y ddeddf newydd allan i bobl gael eu darllen. Dywedodd llawer o bobl wrthyn ni beth roedden nhw'n feddwl am ein syniadau. Roedd llawer o bobl yn meddwl eu bod nhw'n dda.



Fe ddefnyddion ni beth ddywedodd pobl wrthyn ni er mwyn gwneud y ddeddf newydd yn well. Mae arnon ni eisiau gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifainc sydd angen cefnogaeth ychwanegol i ddysgu yn cael gwell bywyd.



Mae arnon ni eisiau i staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifainc fedru defnyddio'r ddeddf newydd hon yn dda.



Mae arnon ni eisiau i deuluoedd a phlant a phobl ifainc wybod am y ddeddf newydd hon. A dweud wrthyn ni beth maen nhw'n feddwl.



Mae ffurflen ymateb ar gael i chi ei llenwi i roi eich barn. Fe fedrwch chi ddod o hyd i hon ar ein gwefan www.llyw.cymru/consultations/education/draft-aln-and-education-tribunal-wales-bill/?lang=cy neu trwy ffonio 02920 823777.

Rydyn ni'n edrych ymlaen at glywed beth rydych chi'n ei feddwl.

Beth yw anghenion dysgu ychwanegol (ADY)?



Mae plant a phobl ifainc sydd angen cefnogaeth ychwanegol i ddysgu yn cael eu galw'n blant a phobl ifainc sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA).



Weithiau maen nhw'n cael eu galw'n blant neu bobl ifainc sydd ag anabledd dysgu neu rai sydd ag anhawster dysgu.

Gall hyn gynnwys problemau gyda:



- darllen, ysgrifennu a deall



- golwg, clyw neu leferydd



- symud o gwmpas



- emosiynau neu ymddygiad.



Nid yw anghenion addysgol arbennig yn label da. Ac nid yw'r ddeddf ar gyfer anghenion addysgol arbennig yn glir iawn.



- Mae arnon ni eisiau rhoi'r gorau i ddweud anghenion addysgol arbennig. Mae arnon ni eisiau dweud **anghenion dysgu ychwanegol (ADY)** yn lle hynny a chynnwys plant a phobl ifainc hyd at 25.

Mae gan blant a phobl ifainc sydd ag **anghenion dysgu ychwanegol**:



- anhawster neu anabledd sy'n meddwl bod arnyn nhw angen cefnogaeth ychwanegol, neu



- rhwystrau sy'n ei gwneud hi'n fwy anodd dysgu na phlant a phobl ifainc eraill o'r un oed, neu



- anabledd sy'n meddwl na allan nhw ddefnyddio'r ysgol neu'r coleg lleol.



Bydd y dywediad **anghenion dysgu ychwanegol** yn cael ei ddefnyddio hefyd ar gyfer pobl ifainc hyd at 25 oed. Felly bydd person sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu bod yn unrhyw oed rhwng 0 a 25.



Bydd staff fel athrawon a gweithwyr cymdeithasol yn ôl pob tebyg yn galw hyn trwy ddefnyddio'r llythrennau A D Y. Felly o hyn ymlaen yn y ddogfen hon fe fyddwn ni'n ysgrifennu **ADY**.



Gan y bydd y ddeddf newydd yn cynnwys plant a phobl ifainc sydd ag ADY hyd at 25 oed, fe fyddan nhw'n ei chael hi'n haws symud ymlaen i goleg ar ôl gadael ysgol. Fe fyddan nhw'n dal i gael yr un gefnogaeth yn y coleg ag yr oedden nhw yn yr ysgol.



Bydd yn rhaid i **awdurdodau lleol** ysgrifennu gwybodaeth am ADY y gall bobl gael gafael arni. Dylai'r wybodaeth hon gael ei rhoi i:



- blant, eu rhieni a phobl ifainc



- ysgolion



- pobl sy'n rhoi cefnogaeth i blant a phobl ifainc sydd ag ADY, fel gwasanaethau iechyd.



Yr **awdurdod lleol** yw'r Cyngor Sir. Maen nhw'n darparu llawer o wasanaethau yn eich ardal, fel gwasanaethau cymdeithasol, addysg, ffyrdd a chasglu sbwriel.

Cynllun ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY



Bydd gan bob plentyn a pherson ifanc sydd ag ADY gynllun. Bydd hwn yn cael ei alw'n **cynllun datblygu unigol**.

Cynllun datblygu unigol yw'r enw ar y cynllun newydd fydd gan bob plentyn a berson ifanc sydd ag ADY.



Fe fyddwn ni'n defnyddio'r cynllun hwn yn lle'r gwahanol gynlluniau ar gyfer gwahanol oeddrannau a gwahanol fathau o anghenion addysgol arbennig.

Ar y funud efallai bod gan blant a phobl ifainc:

- **Ddatganiad**
- **neu Gynllun Addysg Unigol**
- **neu Gynllun Dysgu a Medrau.**



Yn y dyfodol bydd plant a phobl ifainc sydd ag ADY i gyd yn cael **cynllun datblygu unigol**.



Bydd y **cynllun datblygu unigol** yn dweud beth sydd ar y plentyn neu'r person ifanc ei angen er mwyn gallu dysgu. Bydd yn dweud hefyd beth fydd yn cael ei wneud er mwyn i'r plentyn neu'r person ifanc gael y gefnogaeth iawn mewn ysgol neu goleg.



Mae'n rhaid meddwl beth mae'r plentyn, y rhiant neu'r person ifanc yn ei feddwl, ei deimlo neu'n hoffi ei gael ar gyfer y cynllun hwn.



Mae'n rhaid i'w rieni neu ei ofalwyr teuluol fod yn rhan o bob penderfyniad sy'n cael ei wneud ar gyfer y cynllun hwn.



Dylai plant a phobl ifainc a'u rhieni gael gwybodaeth am y cynllun cyn unrhyw gyfarfod. Dylai'r wybodaeth gael ei rhoi mewn ffordd y gallan nhw ei deall.

Bydd yr **awdurdod lleol**, yr ysgol neu'r coleg yn ysgrifennu'r cynllun. Ond bydd pawb yn rhan o'i ysgrifennu. Mae hyn yn meddwl:



- y plentyn neu'r person ifanc



- ei deulu



- staff o'r maes iechyd sy'n cefnogi'r plentyn neu'r person ifanc



- staff o'r gwasanaethau cymdeithasol sy'n cefnogi'r plentyn neu'r person ifanc



- unrhyw berson arall sy'n cefnogi'r plentyn neu'r person ifanc.



Bydd yn rhaid rhoi copi o'r cynllun i'r plant, eu rhieni neu'r bobl ifainc.




Weithiau efallai nad yw ysgol neu goleg yn meddwl y gallan nhw gefnogi ADY y plentyn neu'r person ifanc. Os ydyn nhw'n meddwl hyn, gallan nhw ofyn i'r **awdurdod lleol** ysgrifennu'r cynllun.



Mae arnon ni eisiau i'r cynllun gael ei ddefnyddio gan bawb. Mae arnon ni eisiau i bobl feddwl am bob rhan o fywyd y plentyn neu'r person ifanc yn y cynllun.

Bydd y cynllun yn cael ei wirio:



- bob 12 mis neu



- pan fydd rhywun yn gofyn iddo gael ei wirio neu



- pan fydd unrhyw beth ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc yn newid.



Gall **awdurdodau lleol** ysgrifennu a gwirio'r **cynllun datblygu unigol** yr un amser ag y mae cynlluniau eraill yn cael eu hysgrifennu neu eu gwirio.



Nid yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd. Gall hyn wneud i rywun deimlo'n ddryslyd gan ei fod yn meddwl bod yn rhaid i'r plentyn neu'r person ifanc gyfarfod â llawer o bobl sy'n penderfynu beth mae'r plentyn neu'r person ifanc ei angen.



Os bydd cynlluniau eraill fel cynlluniau iechyd yn cael eu gwirio ar yr un adeg, gallan nhw gael eu cynnwys yn y **cynllun datblygu unigol**.



Mae'n rhaid i **awdurdodau lleol** edrych o hyd a yw'r **cynllun datblygu unigol** yn gweithio ar gyfer y plant a'r bobl ifainc sydd gydag un.

Rhoi'r gorau i gynlluniau



Gall **awdurdod lleol**, ysgol neu goleg roi'r gorau i gadw **cynllun datblygu unigol** os nad oes mo'i angen bellach.



Mae'n rhaid iddyn nhw ddweud wrth y person ifanc neu'r plentyn a'u rhiant eu bod yn meddwl rhoi'r gorau i'r **cynllun datblygu unigol**.



Mae'n rhaid iddyn nhw ddweud wrthyn nhw pam maen nhw'n meddwl y dylen nhw roi'r gorau i gadw'r cynllun.



Os nad ydych chi am iddyn nhw roi'r gorau i gadw'r cynllun mae'n rhaid i chi ddweud wrthyn nhw o fewn hyn a hyn o amser. Dylai'r **awdurdod lleol** ddweud wrthyhych chi faint o amser sydd gennych chi i wneud hyn.



Bydd yr **awdurdod lleol** yn gwrando arnoch chi a phenderfynu a ddylen nhw roi'r gorau i'r cynllun ai peidio.



Mae'r cynllun yn gallu cael ei gadw nes bod y person ifanc yn cyrraedd 25 mlwydd oed.



Os bydd person ifanc yn cyrraedd 25 ac mae'n dal mewn addysg, bydd eu cynllun yn dod i ben pan fyddan nhw'n gorffen eu cwrs. Mae'n rhaid i'r cynllun orffen cyn eu pen-blwydd yn 26 oed.

Gwneud y gorau bosibl ar gyfer plant a phobl ifainc sydd ag ADY



Mae arnon ni eisiau i blant a phobl ifainc sydd ag ADY gael y mwyaf allan o'r amser cyn mynd i'r ysgol, yr ysgol a'r coleg.

Dydy o ddim yn ddigon cael cynllun yn unig. Bydd gan bob ysgol neu goleg berson sydd â'r swydd o wneud yn siŵr bod:



- gan bob plentyn a person ifanc sydd ag ADY gynllun



- beth sydd yn y cynllun yn cael ei wneud



- y cynllun yn helpu'r plentyn neu'r person ifanc i wneud pethau'n well.




Bydd y person hwn yn cael ei alw'n **Gydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol**.



Rydyn ni'n meddwl ei bod hi'n well i blant a phobl ifainc sydd ag ADY fod yn eu hysgol leol a chael eu dysgu gyda'i gilydd os yw'n bosibl.



Nid yw rhai ysgolion a cholegau yn cael eu rhedeg gan **awdurdodau lleol**. Mae'n rhaid i **awdurdodau lleol** dalu i blant a phobl ifainc fynd iddyn nhw. Yr unig adeg y bydd hyn yn digwydd yw pan na fydd yr ysgol leol yn medru rhoi'r gefnogaeth y bydd ei hangen ar y plentyn neu'r person ifanc.



Mae'n rhaid i'r ysgolion a'r colegau hyn brofi eu bod nhw'n gallu rhoi cefnogaeth i blentyn neu berson ifanc sydd ag ADY. Yna byddan nhw'n mynd ar restr Llywodraeth Cymru. Dim ond ysgolion a cholegau ar y rhestr y mae'r **awdurdodau lleol** yn gallu talu amdany'n nhw.

Pawb yn gweithio gyda'i gilydd

Bydd pob gwasanaeth yn gweithio gyda'i gilydd ar gyfer plentyn neu berson ifanc sydd ag ADY. Mae hyn yn meddwl:



- yr awdurdod lleol



- ysgolion a cholegau



- iechyd



- unrhyw wasanaeth arall y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ei ddefnyddio, fel gwasanaeth carchar.



Fe fyddan nhw'n rhannu gwybodaeth â'i gilydd. Fe fyddan nhw'n dweud wrth ei gilydd beth maen nhw'n wneud.



Bydd yr awdurdod lleol, ysgol neu goleg yn gyfrifol am wneud y cynllun datblygu unigol a gwneud yn siŵr ei fod yn gweithio.



Bydd pob rhan o'r cynllun datblygu unigol yn cael eu gwirio i wneud yn siŵr eu bod nhw'n mynd gyda'i gilydd ac yn gweithio'n dda.



Mae hyn yn bwysig iawn ar gyfer **plant sy'n derbyn gofal**.

Mae **plant sy'n derbyn gofal** mewn gofal ac efallai eu bod mewn cartref maeth.

Gwasanaethau iechyd



Os yw'r **cynllun datblygu unigol** yn dweud bod yn rhaid i'r plentyn neu'r person ifanc gael gwasanaethau iechyd i'w helpu gyda'u dysgu, mae'n rhaid i'r GIG wneud yn siŵr eu bod yn cael eu paratoi ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc.

Bydd gan bob ardal iechyd yng Nghymru berson gyda'r gwaith o:



- siarad â phob gwasanaeth am gynlluniau



- fod yn berson sy'n trefnu pethau'n ymwneud â iechyd



- gwneud yn siŵr bod staff iechyd yn gwneud beth mae'r cynllun yn ei ddweud.



Weithiau mae staff iechyd yn gweithio gyda phlant sydd ddim yn ddigon hen ar gyfer ysgol. Pan fydd staff iechyd yn meddwl bod y plentyn ag ADY gallan nhw siarad â'r **awdurdod lleol**. Mae'n rhaid iddyn nhw ddweud wrth rieni y plentyn eu bod nhw'n gwneud hyn.

Pan na fydd pobl yn cytuno â'r cynllun



Mae arnon ni eisiau rhwystro unrhyw anghytuno ynghylch cynllun y plentyn neu'r person ifanc. Mae'n rhaid i **awdurdodau lleol** wneud yn siŵr bod plant, pobl ifainc a rhieni yn cael cefnogaeth i:



- ddeall y cynllun



- bod yn rhan o ysgrifennu'r cynllun



- bod yn rhan o benderfyniadau sy'n eu heffeithio yn y cynllun



- siarad am eu pryderon



- cael ateb i'w cwestiynau.



Efallai bydd pobl yn dal i anghytuno. Mae angen cael pobl i gytuno yn gyflym a gwneud hynny'n lleol. Os na fydd rhywun yn cytuno â pheth o'r cynllun, mae'n rhaid i **awdurdodau lleol**:



- wneud yn siŵr bod rhywun sydd ddim yn rhan o'r anghytuno yn medru gwrando a helpu



- gwneud yn siŵr bod plant, pobl ifainc a rhieni yn gwybod bod hyn yn bosibl.



Mae'n rhaid i **awdurdodau lleol** gael ffyrdd o roi trefn ar anghytundebau yn gyflym fel bo plant, eu rhieni a phobl ifainc yn medru ymddiried ynddyn nhw.



Bydd hyn yn gwneud yn siŵr nad yw plant, eu rhieni na phobl ifainc yn gorfod **apelio**. Rydyn ni'n meddwl y bydd hyn yn gwneud pethau'n fwy cyflym ac yn haws iddyn nhw.

Rydych chi'n **apelio** os ydych chi'n gofyn i rywun newid penderfyniad.

Ar y funud, os nad yw rhieni yn hoffi'r Datganiad, fe allan nhw **apelio**.



Yn y dyfodol bydd plant a phobl ifainc hefyd yn gallu **apelio** os nad ydyn nhw'n cytuno â'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ynghylch ADY neu'r **cynllun datblygu unigol**.



Ond mae arnon ni eisiau rhoi trefn ar broblemau cyn gynted â phosibl fel nad ydyn nhw'n gorfod **apelio**.



Gall y plentyn neu'r person ifanc gael **eiriolwr** i'w helpu i roi trefn ar broblemau ac **apelio**.

Mae **eiriolwr** yn rhywun sy'n siarad ar eich rhan.



Mae'n rhaid i **awdurdodau lleol** ddweud wrth y plentyn neu'r person ifanc sut i gael **eiriolwr** os byddan nhw'n gofyn am un. Fe ddylen nhw ei gwneud hi'n hawdd i'r plentyn neu'r person ifanc.



Mae'n rhaid i'r **eiriolwr** fod yn rhywun sydd ar wahân i'r **awdurdod lleol**. Efallai y daw'r **eiriolwr** o wasanaeth **eiriolaeth** yn eu hardal hwy.

Bydd yr **eiriolwr** yn helpu'r plentyn neu'r person ifanc i **apelio**. Gall yr **eiriolwr** helpu i wneud pethau fel:



- meddwl am yr **apêl** a rhoi cyngor ynghylch beth sy'n gallu cael ei wneud



- ysgrifennu llythyrau



- mynd i gyfarfodydd i siarad ar ran y plentyn neu'r person ifanc.



Weithiau gall y plentyn neu'r person ifanc fod yn barod yn adnabod rhywun sy'n gallu rhoi cefnogaeth iddyn nhw mewn **apêl**.

Bydd y person hwn yn cael ei alw'n **ffrind achos**.

Mae **ffrind achos** yn rhywun sy'n gallu rhoi cefnogaeth i blentyn neu berson ifanc sydd ag apêl. Nid yw'n eiriolwr.

Bydd y **ffrind achos** yn rhywun fydd:



- yn deg ac yn gallu sefyll o blaid y plentyn neu'r person ifanc



- yn gwrando ar farn y plentyn neu'r person ifanc



- yn dda am roi trefn ar bethau pan na fydd pobl yn cytuno



- yn dda am ddod o hyd i atebion i broblemau.



Rydyn ni'n gobeithio y bydd y ddeddf newydd yn ein helpu i ateb unrhyw broblemau yn fwy cyflym ac mewn ffordd haws.

Hawl i apelio hawdd



Mae **Tribiwnlys** ar gael yn barod ar gyfer anghenion addysgol arbennig. Bydd hwn yn dal i fynd dan enw newydd – **Tribiwnlys Addysg Cymru**.

Mae **Tribiwnlys** yn grŵp arbennig o bobl sydd â'r gwaith o ddelio ag anghytuno.

Gall blentyn, person ifanc neu riant **apelio** i'r **Tribiwnlys** ynghylch:



- penderfyniad ynglŷn â pha ADY sydd gan blentyn neu berson ifanc



- **awdurdod lleol** yn penderfynu a oes ar berson angen cynllun



- pa gefnogaeth mae'r cynllun yn dweud sydd ar y plentyn neu'r person ifanc ei angen



- yr ysgol mae'r cynllun yn dweud y dylai'r person fynd



- dim ysgol yn cael ei enwi yn y cynllun



- penderfyniad i beidio â gwirio cynllun



- penderfyniad i beidio â dal ati gyda chynllun.



Mae'n rhaid i bawb gyd-fynd â phenderfyniad y [Tribiwnlys](#).



Mae unrhyw [apêl](#) yn erbyn y [Tribiwnlys](#) yn gorfod bod ynghylch sut roedden nhw'n defnyddio'r gyfraith. Os oes angen, gall hyn fynd at [Dribiwnlys](#) uwch.

Rhieni sydd ddim yn gallu gwneud penderfyniadau

Weithiau nid yw rhieni yn gallu gwneud penderfyniadau ynghylch beth sydd orau ar gyfer eu plentyn. Gall hyn fod oherwydd bod ganddyn nhw:



- **problem iechyd meddwl.** Mae hyn yn bod pan na fydd pobl yn teimlo'n dda yn eu meddyliau



- anabledd dysgu



- **dementia.** Mae hyn yn bod pan fydd gan bobl broblemau gyda'u cof ac yn gallu bod yn ddryslyd.



Y geiriau cyfreithiol am hyn yw ddim gyda'r **galluedd**.

Galluedd – medru gwneud penderfyniad neu ddewis arbennig ar adeg arbennig.



Mae'r Ddeddf **Galluedd** Meddyliol yn dweud pan nad oes gan berson **alluedd**. Mae rheolau clir iawn ynghylch sut i benderfynu a oes gan berson **alluedd**.

Pan nad oes gan riant **alluedd**:



- gall y Llys Gwarchod benderfynu pwy fydd yn gwneud penderfyniadau am y plentyn



- efallai bydd y rhiant yn barod wedi ysgrifennu pwy fydd yn gwneud penderfyniadau ynghylch y plentyn. Mae hyn yn cael ei alw'n **atwrneiaeth arhosol**.

Rheolau a chyngor ynghylch y ddeddf newydd



Rydyn ni'n ysgrifennu set o reolau a chyngor ynglŷn â'r ffordd o ddefnyddio'r ddeddf newydd. Mae hyn yn cael ei alw'n **God**.

Mae **Cod** yn set o reolau i helpu awdurdodau lleol a phartneriaid wneud beth mae'r ddeddf yn dweud wrthyn nhw am wneud.



Fe fyddwn ni'n gofyn am sylwadau ar y rheolau newydd cyn i ni ysgrifennu'r rhai terfynol.



Bydd y rheolau ar gyfer staff dysgu, **awdurdodau lleol** a gwasanaethau iechyd. Bydd y rheolau yn eu helpu i:

- ddeall pethau ynghylch ADY
- cefnogi plant a phobl ifainc sydd ag ADY
- ysgrifennu'r **cynllun datblygu unigol**
- rhoi'r **cynllun datblygu unigol** ar waith





- gwirio'r **cynllun datblygu unigol**



- rhwystro anghytundebau rhag digwydd.



Bydd y rheolau hefyd yn dweud sut y bydd eiriolaeth yn cael ei wneud os bydd angen.

Fe fyddwn ni'n siarad am y rheolau gydag:



- **awdurdodau lleol**



- ysgolion a cholegau



- addysg blynyddoedd cynnar, er enghraifft meithrinfeydd



- **Estyn**

Estyn yw'r enw ar y grŵp sy'n arolygu ysgolion a cholegau yng Nghymru.

Plant sy'n derbyn gofal

Mae **plant sy'n derbyn gofal**:

- mewn gofal
- mewn cartref maeth efallai. Mae hyn pan fydd plentyn yn byw gyda theulu arall.



Bydd llawer o **blant sy'n derbyn gofal** ag ADY.



Mae gan **blant sy'n derbyn gofal** gynllun addysg personol. Mae arnon ni eisiau i hwn fod yr un fath â'r **cynllun datblygu unigol**.



Rydyn ni'n aros i **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** ddod yn gyfraith. Mae'r Ddeddf hon ynghylch gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chefnogaeth.



Yna fe fyddwn ni'n gallu gorffen ysgrifennu am **blant sy'n derbyn gofal** yn y ddeddf hon.



Mae arnon ni eisiau i **blentyn sy'n derbyn gofal** neu ei riant fedru apelio i'r **Tribiwnlys** os ydyn nhw'n anghytuno â'r **cynllun addysg**.

Plant a phobl ifainc sy'n cael eu cadw'n gaeth



Mae plentyn neu berson ifanc yn cael ei **gadw'n gaeth** pan fydd wedi torri'r gyfraith ac mae'n rhaid iddo aros mewn lle sy'n cael ei gadw ar glo. Dim ond llysoedd sy'n cael dweud bod yn rhaid i blant a phobl ifainc fynd i'r manau hyn.



Os oes gan blentyn neu berson ifanc ADY yn barod, mae'n rhaid i'r **awdurdod lleol** ble mae eu cartref wneud yn siŵr bod eu **cynllun datblygu unigol** yn dal i fynd ymlaen pan fydd yn gallu gadael y lle sydd ar glo.



Weithiau mae'r lle y mae'r plentyn ynddo yn gofyn a oes ADY ar y plentyn neu'r person ifanc. Bydd yr **awdurdod lleol** ble mae eu cartref yn penderfynu a oes ADY arno. Bydd yr **awdurdod lleol** hwnnw wedyn yn ysgrifennu **cynllun datblygu unigol** gyda'r plentyn.



Bydd rheolwr y lle y mae'r plentyn neu'r person ifanc ynddo yn rhan o'r holl benderfyniadau. Fe fydd yn cael copi o'r cynllun.

Geiriau anodd

Apelio

Rydych chi'n apelio os ydych chi'n gofyn i rywun newid penderfyniad.

Awdurdod lleol

Yr awdurdod lleol yw'r Cyngor Sir. Maen nhw'n darparu llawer o wasanaethau yn eich ardal, fel gwasanaethau cymdeithasol, addysg, ffyrdd a chasglu sbwriel.

Cadw'n gaeth

Mae plentyn neu berson ifanc yn cael ei gadw'n gaeth pan fydd wedi torri'r gyfraith ac mae'n rhaid iddo aros mewn lle sy'n cael ei gadw ar glo. Dim ond llysoedd sy'n cael dweud bod yn rhaid i blant a phobl ifainc fynd i'r manau hyn.

Cod

Mae Cod yn set o reolau i helpu awdurdodau lleol a phartneriaid wneud beth mae'r ddeddf yn dweud wrthyn nhw am wneud.

Cynllun datblygu unigol

Cynllun datblygu unigol yw'r enw ar y cynllun newydd fydd gan bob plentyn sydd ag ADY.

Dementia

Mae hyn yn bod pan fydd gan bobl broblemau gyda'u cof ac yn gallu bod yn ddryslyd

Eiriolwr

Mae eiriolwr yn berson sy'n siarad ar eich rhan.

Estyn

Estyn yw'r enw ar y grŵp sy'n arolygu ysgolion a cholegau yng Nghymru.

Ffrind achos

Mae ffrind achos yn rhywun sy'n gallu rhoi cefnogaeth i blentyn neu berson ifanc sydd ag apêl. Nid yw'n eiriolwr.

Galluedd

Galluedd yw medru gwneud penderfyniad neu ddewis arbennig ar adeg arbennig.

Plant sy'n derbyn gofal

Mae plant sy'n derbyn gofal mewn gofal ac efallai eu bod mewn cartref maeth.

Problem iechyd meddwl

Mae hyn yn bod pan na fydd pobl yn teimlo'n dda yn eu meddyliau.

Tribiwnlys

Mae Tribiwnlys yn grŵp arbennig o bobl sydd â'r gwaith o ddelio ag anghytuno.